

**Cydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru gyda'r Safonau
Mawrth 2016**

**Cynhyrchwyd yn unol â gofynion
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**

Safonau	Gwybodaeth
155, 161, 167, 175	Mae Hysbysiad Cydymffurfio Gweinidogion Cymru (sydd yn manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth, Llundain Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar fewnwyd staff Llywodraeth Cymru yn ogystal ag ar wefan Llywodraeth Cymru.
156, 162, 168	Mae Polisi Gwynion i Gwsmeriaid Llywodraeth Cymru yn gosod allan y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion, gan gynnwys y broses gwyno a'r weithdrefn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dilyn wrth ystyried cwynion.
157, 158, 159 163, 164, 165 169, 170, 171	<p>Rydym yn sicrhau goruchwyliaeth o'r Safonau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â hwy yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae pob Grŵp o fewn Llywodraeth Cymru yn darparu adroddiadau sicrwydd misol i Fwrdd Rhaglen Cydymffurfiaeth a Gweithredu Safonau'r Gymraeg ar weithredu'r Safonau ym mhob Grŵp; - Darperir adroddiad chwarterol ar weithrediad y Safonau i Fwrdd Llywodraeth Cymru; - Mae rhwydwaith o Gydlynwyr Gwasanaethau Dwyieithog wedi'i hen sefydlu ymhob Grŵp er mwyn cefnogi gweithredu'r Safonau ar draws y Sefydliad; - Datblygwyd a chyhoeddwyd Fframwaith Aseidiadau Impact yr Iaith Gymraeg ac mae'r aseidiadau yn cael eu cytuno a'u cofnodi'n ganolog i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Llundain Polisi; - Mae fframwaith mewn lle i sicrhau ein bod yn adrodd ar y cwynion blynyddol a dderbynnir sy'n ymwneud â'n cydymffurfedd â'r Safonau; - Mae fframwaith mewn lle i gofnodi nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau iaith Gymraeg, gan gynnwys lefel y sgiliau; - Mae fframwaith i gofnodi nifer yr aelodai staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg a chanran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs; - Mae fframwaith mewn lle i asesu a chadw cofnod o'r

	<p>asesiad a wnaed mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag;</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae fframwaith mewn lle i gadw cofnod o'r nifer o'r swyddi gwag a newydd a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn <ul style="list-style-type: none"> (a) Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (b) Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd (c) Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.
<p>160, 166, 172, 174, 176</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â chydymffurfedd Llywodraeth Cymru â'r Safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>